

"Rwy'n dychwelyd i weithio fel darlithydd addysg bellach yn dilyn cyfnod o dair blynedd o doriad gyrfa. Rwyf wedi clywed bod angen i mi gofrestru, beth mae hyn yn ei olygu?"

Ers Ebrill 2015 mae disgwyl i ddarlithwyr addysg bellach gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg yn yr un modd ag y mae athrawon yn gorfod cofrestru.

Nid oes hawl gweithio fel darlithydd mewn Coleg Addysg Bellach heb gofrestru gyda'r Cyngor.

Mae ffi o £45 ar hyn o bryd am gofrestru. Yn y flwyddyn gyntaf (2015-16), bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cymhorthdal tuag at eich ffi fel mai £18 yn unig y byddwch yn ei dalu yn y lle cyntaf. Mi fydd y ffi i athrawon/darlithwyr sy'n gyflogedig yn bresennol yn dod allan o'u cyflog yn awtomatig. I athrawon/ddarlithwyr sy'n dechrau cyflogaeth am y tro cyntaf yn y sector, mi fydd yn rhaid i'r unigolion dalu'r gost o £18 wrth gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.

Mae gan y Cyngor god ymddygiad ar gyfer darlithwyr ac athrawon.

Mae materion difrifol disgyblu (e.e. camymddwyn difrifol) yn cael eu cyfeirio at Gyngor y Gweithlu Addysg a gall y Cyngor benderfynu ar gamau disgyblu pellach, e.e. gwahardd dros dro -neu'n barhaol - o addysgu.

Mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru'n bwriadu rhoi mwy o rôl i'r Cyngor am faterion yn ymwneud â datblygiad proffesiynol parhaus.

Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan Cyngor y Gweithlu Addysg: www.cga.cymru